

COPA CYMRU

gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Addasiad ar gyfer y we gan Gwaith Maes

Mae'r deunydd wedi'i ddethol o becyn addysg Yr Wyddfa gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'i gyflwyno ar gyfer disgyblion yn ogystal ag athrawon. Am fwy o gefndir a gwybodaeth, ynghyd â chyfoeth o weithgareddau pellach, gweler y pecyn addysg ei hun, sydd wedi ei ddsbarthu i holl ysgolion Cymru. Mae'r ymarferion yn dilyn y testun.

Sut le yw'r Wyddfa?

"Un o'r lleoedd harddaf yng Nghymru ac felly yn y byd." Gan ei bod mor hardd, mae'r Wyddfa wedi denu llawer o arlunwyr ers blynnydoedd lawer. Yn yr un modd, mae'r ardal wedi ysbrydoli llawer iawn o feirdd ac awduron ac mae'n dal i wneud hynny hyd heddiw.



Yr Wyddfa o Tŷ Obri – Kyffin Williams

Mae'r darnau sy'n dilyn yn dangos sut mae pobl wedi ceisio cyfleu yr hyn sy'n arbennig iddynt am yr Wyddfa.

Llidiard uwchlaw llidiardau - a godwyd
I gadw'r terfynau
Ar fynydd oer ei fannau,
A'i werth i gyd wrth ei gau.

John Thomas

Y llynnau gwyrddion llonydd – a gysgant
Mewn gwasgod o fynydd,
A thynn heulwen ysblennydd
Ar len y dŵr lun y dydd.

Gwilym Cowlyd



Dringo cyffrous ar yr Wyddfa


I lawer o bobl eraill, nid yr harddwch sy'n denu ond y cyfle i gerdded yn y mynyddoedd.

Mae pobl eraill yn ymweld â'r Wyddfa er mwyn dringo'r llethrau serth ac i wella'u medrau wrth baratoi ar gyfer dringo mynyddoedd uwch mewn rhannau eraill o'r byd. Daeth Syr Edmund Hillary a'i dîm o ddringwyr i ymarfer ar yr Wyddfa cyn eu cais i fod y cyntaf i gyrraedd copa Everest. Un ohonynt oedd y Cymro, **Charles Evans**.

Y bywyd gwyllt a'r planhigion prin sy'n denu pobl eraill. Efallai mai'r planhigyn mwyaf anghyffredin ac enwog ar lethrau'r Wyddfa yw **Lili'r Wyddfa**. Yr enw Lladin am Lili'r Wyddfa yw *Lloydia serotina*. Mae'r enw hwn yn cyfeirio at y dyn ddaeth ar draws y planhigyn hwn am y tro cyntaf, y botanegwr **Edward Llwyd**. Wrth gerdded yn ardal yr Wyddfa ym 1862 gwelodd y blodyn hardd mewn man cysgodol. Dim ond yn y lleoedd mwyaf anghysbell, lle nad oes pobl na defaid yn crwydro, mae i'w gael.



Lili'r Wyddfa (*Lloydia serotina*)



Braslun yn dangos dau o'r llwybrau i gopa'r Wyddfa (o daflen Llwybr y Mwynwyr a gyhoeddir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

Allwedd

1	Yr Wyddfa	8	Siafftau mwyngloddio	15	Llyn Teyrn
2	Bwlch Glas	9	Llyn Glaslyn	16	Pibell ddŵr Cwm Dyli
3	Bwlch y Saethau	10	Crib Goch	17	Baracs Llyn Teyrn
4	Y Lliwedd	11	Llyn Llydaw	18	Llwybr Pyg
5	Igam ogam	12	Melin falu copr	19	Bwlch Llanberis
6	Crib y Ddysgl	13	Tŷ falf	20	Llwybr y Mwynwyr
7	Cyffordd gyda Llwybr Pyg	14	Sarn	21	Pen y Pass

Efallai, i'r rhan fwyaf o bobl, y peth pwysicaf yw gallu dweud eu bod wedi dringo neu gerdded i gopa'r mynydd uchaf yng Nghymru a Lloegr. Gan fod cymaint o bobl erbyn hyn yn ymweld â'r ardal i gerdded, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi paratoi nifer o daflenni ar gyfer ymwelwyr. Mae llawer ohonynt yn cynnwys rhybudd am beryglon cerdded ar y mynydd heb y dillad a'r offer iawn. Mae nifer o daflenni hefyd yn dangos y llwybrau cerdded ac yn cyflwyno gwybodaeth am yr ardal. Mae'r rhain yn atgoffa pobl mai ardal ffermio yw hon a bod angen parchu hyn. Hefyd, maent yn cyfeirio at y gwaith cynnal a chadw sy'n cael ei wneud er mwyn diogelu'r amgylchedd a sicrhau datblygiad cynaliadwy.



COFIWCH

Er eich bod ym Mharc Cenedlaethol Eryri, cofiwch fod y llwybr yn croesi tir ffermio a phori preifat yng Ngwastadannas, lle nad oes croeso i gŵn oni bai eu bod ar dennyn.

Ar eich ffordd i'r copa fe welwch dystiolaeth o waith hanfodol adnewyddu llwybrau a wneir gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Gwaith cynnal a chadw ar un o lwybrau Parc Cenedlaethol Eryri

Cadwch at y llwybrau os gwelwch yn dda er mwyn atal erydu pellach.

Darn o daflen Llwybr y Mwynwyr a gyhoeddir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Sut mae pobl yn gofalu am yr Wyddfa?


Wrth i'r nifer o bobl sy'n ymweld â'r Wyddfa gynyddu, mae'r angen i reoli a gofalu am yr ardal hefyd yn cynyddu. Ym 1949, pasiwyd deddf gan lywodraeth y pryd i ddiogelu'r ardaloedd harddaf yng Nghymru a Lloegr. Penderfynwyd sefydlu'r hyn a elwir yn **Barciau Cenedlaethol**. Nid "parciau" ydynt yng ngwir ystyr y gair gan nad yw'r llywodraeth na'r cyngor lleol yn berchen ar y tir.

Dynodwyd tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru – Bannau Brycheiniog yn y De, Arfordir Sir Benfro yn y Gorllewin ac Eryri yn y Gogledd.




Gwarchodfa Natur Genedlaethol yr Wyddfa

Y prif wahaniaeth rhwng ardaloedd y tu fewn i ffiniau'r Parc Cenedlaethol ac ardaloedd eraill yw'r rheolau ar y defnydd o'r tir a newidiadau i'r adeiladau. Oddi fewn i'r Parc Cenedlaethol mae ardal sy'n derbyn gofal arbennig iawn, sef **Gwarchodfa Natur Genedlaethol yr Wyddfa**. Sefydlwyd y warchodfa ym 1964 ac fe'i rheolir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Ar y pryd, roedd yr ardal yn dipyn llai na'r un bresennol. Mae'r amgylchedd yn y warchodfa natur yn derbyn gofal gwahanol i weddill y Parc Cenedlaethol a rhoddir mwy o sylw i warchod y planhigion, bywyd gwylt a'r tirlun fel ag y mae.




Un o'r ffyrdd mae rheolwyr y warchodfa yn gofalu am yr amgylchedd yw trwy benodi Warden i weithio ar y safle ac i gadw golwg ar y warchodfa. Mae hyn yn cynnwys cydweithio gyda phobl sydd yn byw yn yr ardal ac â chyreff cyhoeddus megis **Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol** sy'n berchen ar ac yn rheoli ardaloedd eraill. Erbyn hyn, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi prynu darn mawr o'r Wyddfa.



Tormaen porffor

Prif reswm dros sefydlu'r ardal fel Gwarchodfa Natur Genedlaethol yw presenoldeb planhigion prin sy'n tyfu ar y mynydd. Mae rhai o'r planhigion hyn yn cael eu galw'n blanhigion Arctig-Alpaidd, ac yn dyddio o gyfnod Oes yr Iâ. Mae'r planhigion wedi goroesi ers hynny, dros 10,000 o flynyddoedd yn ôl. Yn ogystal â Lili'r Wyddfa, gwelir planhigion fel y **tormaen porffor**, **tormaen yr eira**, **pren y ddannodd** a'r **gronnell**.

Mae gwarchod cynefinoedd y planhigion hyn yn rhan bwysig o waith **Cyngor Cefn Gwlad Cymru** yn y warchodfa natur. Un o'r cynlluniau sydd ar waith yno yw cynllun Tir Gofal. Gyda'r cynllun hwn, mae ffermwyr yn cael arian er mwyn cydweithio gyda'r Cyngor Cefn Gwlad i ofalu am fywyd gwylt a phlanhigion mewn ardaloedd fel y warchodfa. Yr un pryd, rhaid gwella dealltwriaeth ymwelwyr i'r ardal o'r angen i ofalu am yr amgylchedd.



Rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol yr Wyddfa

Ymlaen i'r ymarferion

TAFLEN WAITH 1A

Lleoli'r Wyddfa (Cyfesurynnau 4 rhif)

Adnoddau: Map Arolwg Ordnans Landranger 115 1:50 000 – Yr Wyddfa
Map Arolwg Ordnans Outdoor Leisure 17 1:25 000 – Yr Wyddfa

Cofiwch!

Dwyreiniaid yw'r rhifau sy'n mynd o'r gorllewin i'r dwyrain
(o'r chwith i'r dde wrth edrych ar y map.)

Gogleddiaid yw'r rhifau sy'n mynd o'r de i'r gogledd
(o'r gwaelod i'r top wrth edrych ar y map.)

Rhaid darllen neu ysgrifennu'r dwyreiniaid CYN y gogleddiaid wrth ddefnyddio'r cyfesurynnau.

Beth sydd i'w weld yn y sgwariau hyn?

(55, 48) = (61, 54) =
(64, 58) = (54, 54) =

Pa dref sydd o fewn sgwâr (48, 62)?
Pa bentref sydd o fewn sgwâr (59, 48)?
Pa lyn sydd o fewn sgwâr (64, 49)?
Pa wasanaethau a gynigir o fewn sgwâr (64, 55)?

Ysgrifennch gyfesurynnau'r mannau canlynol:

Yr Wyddfa (.....,)
Rhyd Ddu (.....,)

Llyn Dinas (.....,)
Crib Goch (.....,)

Beth sydd i'w weld o gopa'r Wyddfa?
(Sylwch ar y pwyntydd sy'n dangos cyfeiriad y gogledd.)

I'r gogledd orllewin o'r Wyddfa gallwch weld

I'r gogledd ddwyrain o'r Wyddfa gallwch
weld

I'r de ddwyrain o'r Wyddfa gallwch weld

Ewch ati i ymestyn y gweithgareddau uchod drwy gynnig 5 tasg debyg ond gwahanol i'r grwpiau eraill o fewn y dosbarth. Cofiwch nodi'r atebion hefyd yn barod ar gyfer eu marcio.

TAFLEN WAITH 1B

Lleoli'r Wyddfa (Cyfesurynnau 6 rhif)

Adnoddau: Map Arolwg Ordnans Landranger 115 1:50 000 – Yr Wyddfa
 Map Arolwg Ordnans Outdoor Leisure 17 1:25 000 – Yr Wyddfa

Cofiwch eich gwaith ar gyfesurynnau 4 rhif ac mai **dwyreiniaid** yw'r rhifau sy'n mynd o'r gorllewin i'r dwyrain (o'r chwith i'r dde wrth edrych ar y map) ac mai **gogleddiaid** yw'r rhifau sy'n mynd o'r de i'r gogledd (o'r gwaelod i'r top wrth edrych ar y map.)

Rhaid darllen neu ysgrifennu'r dwyreiniaid CYN y gogleddiaid wrth ddefnyddio'r cyfesurynnau.

Beth yw enw'r hyn a welir yn y sgwariau hyn?

(570580) = (592479) =

(615494) = (560574) =

Ysgrifennch gyfesurynnau 6 rhif y manau canlynol:

Yr Wyddfa (.....,)

Y Garn (.....,)

Glyder
Fach (.....,)

Mynydd
Mawr (.....,)

Beth sydd i'w weld?

(Sylwch ar y pwyntydd sy'n dangos cyfeiriad y gogledd.)

Beth sydd i'w weld i'r de ddwyrain o Lyn Llydaw?

Beth sydd i'w weld i'r gogledd orllewin o'r Glyder
Fawr?

Beth sydd i'w weld i'r gogledd o ochr ddwyreiniol
Moel Eilio?

Tasg ymestyn

Rydych yn aelod o'r tîm achub. Mae angen mynd o

i i achub rhywun. (Defnyddiwch ddau safle tebygol ar y map i lenwi'r bylchau. Disgrifiwch y daith gan ddefnyddio cyfeirnodau grid (cyfesurynnau 6 rhif) ac enwch leoedd amlwg ar hyd y daith).

TAFLEN WAITH 2

Lleoli'r Wyddfa (Trafod y tirlun a llunio disgrifiad o'r ardal gan ddefnyddio ffrâm ysgrifennu.)

Geirfa

Enwau: llethr, mynydd, llyn, clogwyn, copa, sgri, llwybr, dyffryn

Ansoddeiriau: serth, cul, uchel, anodd, peryglus

Mae ardal yr Wyddfa yn un o ardaloedd mwyaf adnabyddus Cymru

.....
.....
.....
.....

I'r de o'r Wyddfa

.....
.....
.....
.....

I'r gogledd o'r Wyddfa

.....
.....
.....

.....

Mae'r ardal i'r dwyrain

.....

.....

.....

.....

Wrth edrych ar y tirlun i'r dwyrain

.....

.....

.....

.....

TAFLEN WAITH 3

Yr amgylchedd – gweithgareddau sy'n cael effaith ar Eryri

Dewiswch weithgareddau poblogaidd yn Eryri a gwnewch asesiad o'u heffeithiau ynghyd â sut i'w rheoli. Bydd angen taflen ar wahan ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd	
Amser y flwyddyn	
Rhannau o Eryri a effeithir gan y gweithgaredd	
Rhesymau am y gweithgaredd	
Effaith ar bobl sy'n byw yn yr ardal	
Effaith ar ymwelwyr eraill	
Effaith ar fywyd gwylt	
Ymateb i'r gweithgaredd – o blaid ac yn erbyn	
Rheolaeth sydd ei hangen	